



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg 2017-18

**Awdur:** Caren Prys Jones, Swyddog Iaith Gymraeg

**Dyddiad:** 6 Mehefin 2018

**Fersiwn:** 1

**Cyhoeddi/Dosbarthu:**

- Comisiynydd y Gymraeg
- Grŵp yr Iaith Gymraeg
- Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru (Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol)

**Dyddiad Adolygu:** 31 Mawrth 2019

**Diben a Chrynodeb o'r Ddogfen:**

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhoi manylion am ein perfformiad o'i gymharu ag ymrwymadau'r Cynllun.

Anfonir yr adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol â'i chyfarwydddebau.

Cytunwyd ar yr adroddiad gan Grŵp yr Iaith Gymraeg, y Tîm Gweithredol a Phwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Cyfeirnod y Cynllun Gwaith:** Cynllun Iaith Gymraeg

# 1 Cyflwyniad

- 1.1** Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i roi defnyddwyr wrth galon ein gwasanaethau. Rydym am sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion, ac sy'n effeithiol.

Rydym o'r farn bod cyfathrebu ac iaith yn elfennau craidd gwasanaeth iechyd cyhoeddus ac, mae'n dilyn, felly, bod gwasanaeth priodol ac effeithiol yn un sy'n diwallu anghenion iaith a chyfathrebu defnyddiwr y gwasanaeth. Rydym yn cydnabod mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall rhai pobl gyfathrebu a chyfranogi yn ein gwasanaethau fel partneriaid cyfartal. Rydym yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr ein gwasanaethau.

Yn 2010 cyhoeddwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg lle y mynegwyd ein hymrwymiad i weld sensitifrwydd i anghenion iaith Gymraeg yn cael ei adlewyrchu drwy bob rhan o'r sefydliad, a sicrhau bod ein gwasanaethau Cymraeg ar gael yn fwy helaeth a'u hansawdd yn well. Mae ein Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i fonitro proses gweithredu'r Cynllun, ac i gyflwyno adroddiadau am ein cynnydd i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn wedi'i baratoi yn unol â gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer cyfnod monitro 2017-18.

## 2 Asesiad o effaith polisiau

### 2.1 Nifer a chanran y polisiau (gan gynnwys y rheini a gafodd eu hadolygu neu eu diwygio) lle yr ystyriwyd yr effeithiau y byddai'r polisi yn eu cael ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Cymeradwyodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 15 o bolisiau mewnol yn ystod 2017-18. Un o ofynion 'Polisi Rheoli Polisiau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill' Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cyflawni a chyflwyno Asesiad Effaith Iechyd a Chydraddoldeb (AEICh) cyn y gellir cymeradwyo polisi. Cyhoeddwyd AEICh ar gyfer 11 (73%) o'r 15 polisi a gymeradwywyd. Byddwn yn mynd i'r afael â pham na chyhoeddwyd AEICh ar gyfer y polisiau eraill.

Cynhelir arolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yng ngoleuni Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2018. Bydd canllawiau ysgrifenedig a hyfforddiant ar gael i staff sy'n gwneud 'penderfyniadau polisi' yn ôl y diffiniad yn y safonau.

### 2.2 Enghraifft o asesiad y tybiwyd ei fod yn cael effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg a manylion am sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad i hynny.

2.2.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adolygu ei Bolisi Recriwtio yn ystod y cyfnod monitro (heb ei gymeradwyo hyd yma). Cyflawnwyd AEICh, ac ar ôl ymgynghori â Swyddog y Gymraeg, adolygwyd y polisi a'r asesiad effaith fel ei fod yn adlewyrchu gofynion yn ymwneud a'r Gymraeg. Mae gweithdrefnau wrthi'n cael eu hadolygu yn awr i ategu'r polisi, gan weithio'n agos â'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau'n diwallu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7)) yn y dyfodol.

### 3 Gwasanaethau a ddarperir gan eraill

#### 3.1 Nifer a chanran cytundebau trydydd parti sy'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael ei gwneud ym mhob contract yn unol ag Amodau a Thelerau safonol y GIG, Cymal 51:

*Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn ymrwymo na fydd yn cynnal y Contract hwn mewn ffordd sy'n golygu bod yr Awdurdod neu unrhyw Fuddiolwr yn torri ei rwymedigaethau o ran y Gymraeg gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w rwymedigaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*

Monitrwyd saith o gontractau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i weld a oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â'r Gymraeg. Roedd pob un o'r trydydd partion yn cydymffurfio â'r manylebau ar gyfer y Gymraeg.

#### 3.2 Enghraifft o waith monitro i asesu a oedd cytundeb trydydd parti yn cydymffurfio neu beidio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg a manylion unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'r gwaith monitro.

3.2.1 Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol: Comisiynwyd asiantaeth i ymgymryd â gwaith maes Cadw'n Iach yng Nghymru. Rhai o ofynion y fanyleb oedd cynhyrchu deunyddiau dwyieithog a darparu cyfwelwyr Cymraeg. Cyflawnwyd y fanyleb.

3.2.2 Comisiynwyd pedair asiantaeth gan ein Cyfarwyddiaeth Iechyd a Lles (Isadran Gwybodaeth Iechyd) a'n Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus (Isadran Amddiffyn Iechyd) i gyflwyno deunyddiau dwyieithog. Cyflawnwyd y fanyleb.

## 4 Cynllunio'r Gweithlu

### 4.1 Diweddariad ynglŷn â'r cynnydd tuag at fabwysiadu / gweithredu strategaeth sgiliau Cymraeg / dwyieithog y sefydliad

Cyflawnwyd drafft cyntaf y Cynllun Sgiliau Cymraeg erbyn 31 Mai 2017. Ar ôl hynny, fe'i hystyriwyd gan Grŵp y Gymraeg, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol a diweddarwyd y drafft. Ar 1 Mawrth 2018, lanswyd ymgynghoriad staff mewn perthynas â'r cynllun a barodd fis. Mae'r sylwadau yn cael eu coladu ar hyn o bryd a chant eu hystyried maes o law gyda'r bwriad o gyhoeddi'r cynllun derfynol erbyn yr haf 2018.

### 4.2 Nifer a chanran cyflogeion y sefydliad y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu

Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion. Rydym yn ceisio cofnodi gwybodaeth am sgiliau Cymraeg presennol ein staff drwy eu hannog i hunanasesu a chofnodi eu sgiliau drwy Gofnod Staff Electronig y GIG. Serch hynny, nid yw pob aelod o'r staff yn gallu defnyddio'r Cofnod Staff Electronig eto, felly nid yw'r data'n gyflawn ar hyn o bryd.

	2017-18		2016-17	
Cyflogeion sydd â chofnod llawn o'u sgiliau Cymraeg	459	27%	435	25%
Cyflogeion sydd â chofnod rhannol o'u sgiliau Cymraeg	210	12%	233	14%
Cyflogeion sydd heb ddim cofnod o'u sgiliau Cymraeg	1065	61%	1027	61%
	1734	100%	1695	100%

Mae nifer a chanran y staff sydd â chofnod llawn o'u sgiliau Cymraeg wedi cynyddu rhywfaint ers 2016-17. Mae nifer a chanran y staff sydd â chofnod rhannol o'u sgiliau Cymraeg wedi lleihau rhywfaint ers 2016-17. Mae nifer a chanran y staff heb gofnod o'u sgiliau Cymraeg wedi aros yr un fath ers 2016-17. Rydym yn gobeithio gwella'r ffigurau hyn erbyn diwedd cyfnod monitro 2018-19. Mae'r ffurflen Fy Nghyfraniad i newydd yn cynnwys y matrices sgiliau Cymraeg ar ESR. Mae disgwyl i staff lenwi'r adran hon cyn eu cyfarfod Fy Nghyfraniad gyda'u rheolwr

llinell, a dylai bod trafodaeth am gofnodi sgiliau Gymraeg ar ESR. At hyn, Mae'r Cynllun Sgiliau Gymraeg yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynyddu cyfraddau datgan ar ESR yn y dyfodol.

#### 4.2 Nifer a chanran cyflogeion y sefydliad sydd â sgiliau Cymraeg (fesul lefel)

		<b>Nifer</b>	<b>Canran %</b>
Nifer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31/03/2018		<b>1734</b>	
Hyfedr yn y Gymraeg ar 31/03/2018		<b>669</b>	<b>39%</b>
Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 1	Gwrando/Siarad Cymraeg	101	5.8%
	Darllen Cymraeg	69	4%
	Ysgrifennu Cymraeg	59	3.4%
Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 2	Gwrando/Siarad Cymraeg	18	1%
	Darllen Cymraeg	15	0.8%
	Ysgrifennu Cymraeg	15	0.9%
Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 3	Gwrando/Siarad Cymraeg	21	1.2%
	Darllen Cymraeg	14	0.8%
	Ysgrifennu Cymraeg	15	0.9%
Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 4	Gwrando/Siarad Cymraeg	22	1.1%
	Darllen Cymraeg	18	1%
	Ysgrifennu Cymraeg	14	0.8%
Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 5	Gwrando/Siarad Cymraeg	67	3.9%

	Darllen Cymraeg	55	3.2%
	Ysgrifennu Cymraeg	44	3%

#### **4.3 Nifer a chanran y cyflogeion y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu fesul grŵp blaenoriaeth:**

**Pediatreg; Nyrsio mewn Ysgolion; Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd; Meddygaeth Gofal yr Henoed; Defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl (plant a'r glasoed, oedolion, cymuned, pobl hŷn); Anableddau dysgu; Therapi lleferydd ac iaith**

Gweler yr ymateb yn adran 4.2. Nid yw'r Cofnod Staff Electronig yn ein galluogi i ddadelfennu gwybodaeth am sgiliau iaith yn ôl 'grŵp blaenoriaeth' ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried hyn wrth inni ddatblygu ein Cynllun Sgiliau Cymraeg. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn fel rhan o'n trefniadau ehangach ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

#### **4.4 Nifer a chanran y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg (yn ôl lefel eu sgiliau) sy'n gweithio yn y grwpiau blaenoriaeth uchod.**

Gweler yr ymateb yn adran 4.3

## **5 Hyfforddiant er mwyn gwella sgiliau Cymraeg**

### **5.1 Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a gafodd hyfforddiant i wella'u sgiliau Cymraeg hyd at lefel cymhwyster penodol.**

Cafodd 108 aelod o'r staff (6.2% o blith cyfanswm y gweithlu, sef 1734) hyfforddiant Cymraeg gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2017-18. Mae hyn yn cymharu'n dda â phum dysgwr yn 2016-17.

### **5.2 Ar 11 Ebrill 2017, cynhaliwyd sesiwn peilot o hyfforddiant 'cwrteisi ieithyddol' i staff gyda'r nod o arfogi'r staff â'r sgiliau Cymraeg sylfaenol er mwyn iddynt ddangos cwrteisi a pharch at ddefnyddwyr y gwasanaeth a chydweithwyr sy'n siaradwyr Cymraeg. Deunaw o staff fynychodd y sesiwn hon. Yn dilyn y sesiwn hwn cyflwynodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

gwrs Cymraeg sylfaenol 10-awr arlein fel rhan o'i gynllun 'Cymraeg Gwaith' ac anogir pob aelod o'r staff i gyflawni'r cwrs.

**5.3** Ym mis Mai 2017, hybwyd cynllun 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cynigiwyd cwrs ar-lein 10-awr am ddim i staff (lefel dechreuwyr) ynghyd a chwrs preswyl 5-niwrnod am ddim (lefel Canolradd ac uwch). Ym mis Medi 2017 cofrestrodd 77 aelod o staff i ymuno a'r cwrs ar-lein ac o blith y rheini mae 44 (57%) wedi dechrau'r cwrs ac mae 3 (3.9%) wedi gorffen y cwrs. Byddwn yn cysylltu â staff sydd wedi cofrestru i ddilyn y cwrs ond nad ydynt wedi dechrau na gorffen y cwrs er mwyn eu hannog i wneud hynny. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gyflawni'r cwrs. Byddwn yn parhau i hybu'r cwrs ar-lein ac yn annog pob aelod o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w gyflawni. Mae 14 aelod o staff wedi mynegi diddordeb mewn mynychu'r cyrsiau preswyl yn ystod 2018.

**5.4** Yn 2017, neilltuodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyllideb ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg. Cytundebwyd a Phrifysgol Caerdydd i ddarparu dau gwrs i 'ddechreuwyr' yn ein hadeilad CQ2 yng Nghaerdydd. Ym mis Medi 2017, cofrestrodd 29 aelod o staff ar y cyrsiau 15-wythnos hyn. Naw (31%) aelod o staff gyflawnodd y cwrs. Byddwn yn gwerthuso'r cwrs ac yn gwahodd adborth gan ddysgwyr er mwyn pendefynu ar ddarpariaeth hyfforddiant yn y dyfodol.

**5.5** Cefnogwyd 14 aelod o staff arall i ddysgu neu ddatblygu sgiliau Cymraeg mewn dosbarthiadau cymunedol.

## **6 Recriwtio**

**6.1 Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofynion canlynol:**

- **Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol**
- **Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol**
- **Nid yw sgiliau Cymraeg yn ofynnol**

Hysbysebwyd 436 o swyddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys ail-hysbysebion) ac o blith y rheini roedd 7 o swyddi (1.6%) yn rhai lle'r oedd y 'Gymraeg yn hanfodol'. Mae nifer y



swyddi a hysbysebwyd lle'r oedd y 'Gymraeg yn Hanfodol' wedi gostwng o 16 yn 2016-17 i 7 yn 2017/18. Mae canran y swyddi a hysbysebwyd lle'r oedd y 'Gymraeg yn Hanfodol' wedi gostwng o 4.2% yn 2016-17 i 1.6% yn 2017/17. Dangosir y swyddi a hysbysebwyd yn rhai lle'r oedd y 'Gymraeg yn Hanfodol' yn y tabl isod:

	<b>Cyfarwyddiaeth</b>	<b>Swydd</b>	<b>Ardal</b>	<b>Siarad Cymraeg?</b>
<b>1</b>	Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	Sgriniwr Clyw Babanod Newydd-anedig	Bangor	Ydy
<b>2</b>		Gweinyddwr Sgrinio Coluddion	Llantrisant	Ydy
<b>3</b>	Iechyd a lles	Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus (Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr)	Bangor	Ydy
<b>4</b>		Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus (Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr)	Bangor	Ydy
<b>5</b>		Cynghorydd Rhoi'r Gorau i Smygu (Secondiad mewnol)	Merthyr Tydfil	Dim penodiad
<b>6</b>		Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus (Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr)	Bangor	Ydy
<b>7</b>		Swyddog Gweinyddol (Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr)	Bangor	Ydy

## **6.2 O blith y swyddi hynny a hysbysebwyd â gofyniad hanfodol, nifer a chanran y swyddi a lenwyd gan unigolion a oedd yn bodloni'r gofyniad.**

Mae 6 swydd o blith y 7 swydd 'Cymraeg yn Hanfodol' wedi'u llenwi'n llwyddiannus. Gyda golwg ar y seithfed swydd 'Cymraeg

yn Hanfodol' (Cyngorydd Rhoi'r Gorau i Smygu), secondiad tymor byr ydoedd a hysbysebwyd yn fewnol yn unig, ac roedd y gwasanaeth yn aflwyddiannus o ran ei lenwi. O blith y chwe swydd a lenwyd, roedd pob unigolyn (100%) yn bodloni'r gofynion iaith (gweler y tabl uchod).

### **6.3 Enghraifft o asesiad sy'n dangos sut y gwnaed penderfyniad i hysbysebu'r swydd:**

#### **6.3.1 Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol**

Hysbysebwyd tair swydd 'Cymraeg yn hanfodol' gan Sgrinio Clyw Babanod Newydd-anedig yn 2016-17 ar ôl gweld bod bwch yn y ddarpariaeth Gymraeg yn y Canolbarth a'r Gogledd. Pan ddaeth swydd yn wag yn 2017-18, hysbysebwyd swydd 'Cymraeg yn Hanfodol' er mwyn cau'r bwch sgiliau Cymraeg yn y tîm.

#### **6.3.2 Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu nid ydynt yn ofynnol.**

Ac eithrio swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol', mae'r holl swyddi Iechyd Cyhoeddus Cymru eraill yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol'.

### **6.4 Asesu gofynion sgiliau Cymraeg swyddi newydd a gweigion Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

Mae teclyn ar gyfer asesu gofynion sgiliau Cymraeg swyddi newydd a gweigion Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i lunio. Cyflwynodd ein Tîm Pobl eu sylwadau ar y teclyn ac fe'i addaswyd yng ngoleuni'r sylwadau hynny. Bydd y Tîm Pobl yn cynnal peilot gyda'r teclyn gyda detholiad o wasanaethau o fis Mai 2018. Cynhaliodd Swyddog y Gymraeg sesiwn hyfforddi gyda'r tîm ar 16 Ebrill. Ein disgwyliad yw y bydd defnydd o'r teclyn yn help u gynyddu nifer y swyddi 'Cymraeg yn hanfodol' yr ydym yn eu hysbysebu yn y dyfodol.

## **7 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith**

### **7.1 Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd ers 1 Ebrill 2017) a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**

Cwblhaodd 123 aelod o'r gwiethlu yr e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith yn ystod y cyfnod monitro.

## 7.2 Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ers cyflwyno'r hyfforddiant

Hyd yma, mae 1258 (69.89%) o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cwblhau modiwlau e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith. Mae'n orfodol i bob aelod o staff gwblhau'r modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith. Adroddir cyfraddau cwblau i'r Tim Gweithredol bob mis.

## 7.3 Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn parhau i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth i dimau ar draws y sefydliad.

# 8 Gwefan

## 8.1 Canran o wefan(nau) y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg

### 8.1.1 Mae'r gwefannau a ganlyn yn gwbl ddwyieithog (ar wahân i ddolenni i wefannau allanol a chynnwys Saesneg-yn-unig o ffynonellau allanol):

Gwefan ac URL
Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU) <a href="http://www.wcisu.wales.nhs.uk">www.wcisu.wales.nhs.uk</a>
Every Child / Pob Plentyn (Newydd yn 2017-18) <a href="http://www.everychildwales.co.uk">www.everychildwales.co.uk</a> <a href="http://www.pobplentyn.co.uk">www.pobplentyn.co.uk</a>
Sgrinio Cyn Geni Cymru <a href="http://www.antenatalscreening.wales.nhs.uk">www.antenatalscreening.wales.nhs.uk</a> <a href="http://www.screeningservices.org/asw/">www.screeningservices.org/asw/</a>
Sgrinio Coluddion Cymru <a href="http://www.bowelscreeningwales.org.uk">www.bowelscreeningwales.org.uk</a> <a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>
Bron Brawf Cymru <a href="http://www.breasttestwales.wales.nhs.uk">www.breasttestwales.wales.nhs.uk</a>

<b>Gwefan ac URL</b>
<a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>
Sgrinio Serfigol Cymru <a href="http://www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk">www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk</a> <a href="http://www.screeningservices.org/csw">www.screeningservices.org/csw</a>
Sgrinio Clyw Babanod Cymru <a href="http://www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk">www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk</a> <a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>
Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru <a href="http://www.aaascreening.wales.nhs.uk">www.aaascreening.wales.nhs.uk</a> <a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>
Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig <a href="http://www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk">www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk</a> <a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>
Iechyd yng Nghymru <a href="http://www.wales.nhs.uk">www.wales.nhs.uk</a>
Her Iechyd Cymru <a href="http://www.healthchallengewales.org">www.healthchallengewales.org</a> <a href="http://www.heriechydymru.org">www.heriechydymru.org</a>
Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd <a href="http://www.iqt.wales.nhs.uk">www.iqt.wales.nhs.uk</a>
Holwch am Glotiau <a href="http://www.askaboutclots.co.uk">www.askaboutclots.co.uk</a>
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG Cymru <a href="http://www.equalityhumanrightswales.wales.nhs.uk">www.equalityhumanrightswales.wales.nhs.uk</a>
Cymru Chwareus <a href="http://www.friskywales.org">www.friskywales.org</a> <a href="http://www.cymruchwareus.org">www.cymruchwareus.org</a>
Cymru Iach ar Waith <a href="http://www.healthyworkingwales.com">www.healthyworkingwales.com</a> <a href="http://www.cymruiacharwaith.com">www.cymruiacharwaith.com</a>
Screening for Life <a href="http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk">www.screeningforlife.wales.nhs.uk</a>
Add to Your Life / Ychwanegu at Fywyd <a href="http://www.addtoyourlife.co.uk">www.addtoyourlife.co.uk</a>

<b>Gwefan ac URL</b>			
<a href="http://www.ychwaneguatfywyd.co.uk">www.ychwaneguatfywyd.co.uk</a>			
Gwasanaeth Gwybodaeth a Chofrestr Anomaleddau Cynhenid Cymru (CARIS) <a href="http://www.caris.wales.nhs.uk">www.caris.wales.nhs.uk</a>			
Gwobrau GIG Cymru <a href="http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home">http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home</a> <a href="http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan">http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan</a>			
GP 1 <a href="http://www.gpun.cymru.nhs.uk">www.gpun.cymru.nhs.uk</a> <a href="http://www.gpone.wales.nhs.uk">www.gpone.wales.nhs.uk</a>			
Quit for them / Stopia er eu mwyn nhw <a href="http://www.stopia.cymru">www.stopia.cymru</a> <a href="http://www.Quit.wales">www.Quit.wales</a>			
Ewch Amdani / Dream Big <a href="http://www.ewchamdani.cymru">www.ewchamdani.cymru</a> <a href="http://www.dreambig.wales">www.dreambig.wales</a>			
Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru <a href="http://www.whiasu.wales.nhs.uk">www.whiasu.wales.nhs.uk</a> <a href="https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/cy/">https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/cy/</a>			
Canolfan	Ryngwladol	Cydlynu	Iechyd
<a href="http://www.iechydrhyngwladol.wales.nhs.uk">www.iechydrhyngwladol.wales.nhs.uk</a> <a href="http://www.internationalhealth.wales.nhs.uk">www.internationalhealth.wales.nhs.uk</a>			
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru <a href="http://www.publichealthnetwork.cymru/cy">http://www.publichealthnetwork.cymru/cy</a> a <a href="http://www.publichealthnetwork.cymru/en">http://www.publichealthnetwork.cymru/en</a>			
Gwefan Gymunedol Ymchwil a Datblygu <a href="http://www.ymchwiliachydycyhoeddcymru.co.uk">www.ymchwiliachydycyhoeddcymru.co.uk</a> a <a href="http://www.publichealthresearchwales.co.uk">www.publichealthresearchwales.co.uk</a>			
Animeiddiad ACE <a href="http://www.aces.me.uk/in-wales/">http://www.aces.me.uk/in-wales/</a> a <a href="http://www.aces.me.uk/cymraeg/">http://www.aces.me.uk/cymraeg/</a>			
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru			

**Gwefan ac URL**<http://www.publichealthwalesobservatory.org/> and<http://www.arsyllfaiechydscyhoedduscymru.org/>

Gofal Sylfaenol Un

<http://www.primarycareone.wales.nhs.uk/home><http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/hafan>

- 8.1.2 Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi manylion gwefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhannol ddwyieithog. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed i wella/cynyddu darpariaeth Gymraeg y wefan, a gwybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses wedi newid ers adroddiad 2015-16).

<b>Gwefan</b>	<b>% Cymraeg : Mawrth 2017</b>	<b>% Cymraeg : Mawrth 2018</b>	<b>Proses Rheoli Cynnwys / Sylwadau</b>
<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p><a href="http://www.publichealthwales.org">www.publichealthwales.org</a></p> <p><a href="http://www.iechydcyhoeddus.cymru.wales.nhs.uk">www.iechydcyhoeddus.cymru.wales.nhs.uk</a></p>	85%	85%	<p>Bydd newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg fel rheol yn cael eu gwneud ar yr un pryd ond yn achlysurol bydd y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau o fewn cyfnod byr ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r wefan Saesneg</p> <p>Daw gwefan gwbl ddwyieithog yn fyw ar-lein yn ystod 2018.</p>
<p>Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p><a href="http://www.wales.nhs.uk/healthprotection">http://www.wales.nhs.uk/healthprotection</a></p>			<p>Mae'r is-safle hwn yn cael ei ddatblygu a bydd yn rhan o'r brif wefan gorfforaethol maes o law. Bydd y wefan bresennol yn cael ei chau pan fydd hynny'n briodol</p>
<p>Rhaglen Cymru ar gyfer Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd</p> <p><a href="http://www.wales.nhs.uk/whaip">http://www.wales.nhs.uk/whaip</a></p>			<p>Bydd yr is-safle hwn yn rhan o'r brif wefan gorfforaethol maes o law. Bydd y wefan bresennol yn cael ei chau pan fydd hynny'n briodol</p>
<p>Help me Quit / Helpa fi i Stopio</p> <p><a href="http://www.helpmequit.wales/">http://www.helpmequit.wales/</a></p> <p><a href="http://www.helpmequit.wales/cy/">http://www.helpmequit.wales/cy/</a></p>			<p>Ni chafwyd gwybodaeth</p>
<p>Gwefan gorfforaethol 1000 o Fywydau</p> <p><a href="http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk">www.1000livesplus.wales.nhs.uk</a></p> <p><a href="http://www.1000amwyofywydau">www.1000amwyofywydau</a></p>	75%	85%	<p>Mae gwaith yn parhau er mwyn gwneud hon yn wefan gwbl ddwyieithog. Mae'r holl gynnwys newydd yn</p>

<b>Gwefan</b>	<b>% Cymraeg : Mawrth 2017</b>	<b>% Cymraeg : Mawrth 2018</b>	<b>Proses Rheoli Cynnwys / Sylwadau</b>
<a href="http://wales.nhs.uk">wales.nhs.uk</a>			ddwyieithog gan gynnwys tudalennau glanio, tudalennau lefel 1/2, eitemau newyddion cyhoeddiadau allweddol, a blogiau. Mae'r gwaith yn parhau i archifo hen we-dudalennau.
EppCymru <a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=537">http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=537</a> <a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=537">http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=537</a>	85%	85%	
Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif <a href="http://mecc.publichealthnetwork.cymru/en">http://mecc.publichealthnetwork.cymru/en</a> <a href="http://mecc.publichealthnetwork.cymru/cy">http://mecc.publichealthnetwork.cymru/cy</a>			Ni chafwyd gwybodaeth
NHS Wales Health Collaborative	0%	0%	
Rhwydwaith Cardiaidd Cymru <a href="http://www.wcn.wales.nhs.uk/home">www.wcn.wales.nhs.uk/home</a> a <a href="http://www.wcn.wales.nhs.uk/hafan">www.wcn.wales.nhs.uk/hafan</a> <a href="http://www.wcn.wales.nhs.uk/home">www.wcn.wales.nhs.uk/home</a> a <a href="http://www.wcn.wales.nhs.uk/hafan">www.wcn.wales.nhs.uk/hafan</a>		0%	From 1st October 2016 South Wales Cancer Network merged with North Wales Cancer Network and the Cancer National Specialist Advisory Group (NSAG) to create the Wales Cancer Network.  The websites are being redeveloped. Once complete the English content will be translated and added to the Welsh site.



## 9 Gwasanaethau Cymraeg a ddarperir

### 9.1 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol o ran nifer y cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau

- 9.1.1 Atebir galwadau i ganolfan alwadau Dim Smygu Cymru gyda chyfarfodiad dwyieithog a gofynnir i'r galwyr ddewis parhau â'r alwad yn Gymraeg ynteu yn Saesneg. Os bydd y galwr yn dewis 'Cymraeg' bydd yn cael ei drosglwyddo i rywun sy'n siarad Cymraeg er mwyn delio â'r alwad. Ceir cyfleuster *Gofyn am Alwad* ar wefan Dim Smygu Cymru. Bydd cleientiaid sy'n gofyn i rywun ffonio yn ôl o'r safle Cymraeg yn cael galwad ffôn gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.
- 9.1.2 Mae Bron Brawf Cymru yn arddangos y posteri 'Iaith Gwaith' mewn clinigau sgrinio pan fydd sgriniwr sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd. Wrth gyrraedd clinigau asesu, gofynnir i'r menywod gwblhau holiaduron sy'n cynnwys cwestiynau am eu dewis iaith.
- 9.1.3 Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddus fel taflenni ffeithiau, adnoddau hyrwyddo, holiaduron, ac arolygon a ddatblygir gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn cael eu paratoi'n ddwyieithog fel mater o drefn. Pan fydd digwyddiadau hyfforddi yn cael eu trefnu, gofynnir i'r cynrychiolwyr nodi eu hanghenion ieithyddol cyn dod i'r hyfforddiant.
- 9.1.4 Mae staff sgrinio sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn gwisgo llinyn 'Cymraeg' a'r bathodyn pin 'Cymraeg'.
- 9.1.5 Atebir galwadau i ganolfan alwadau Sgrinio Coluddion Cymru gyda chyfarfodiad dwyieithog a gofynnir i'r galwyr ddewis parhau â'r alwad yn Gymraeg ynteu yn Saesneg. Os bydd y galwr yn dewis 'Cymraeg' bydd yn cael ei drosglwyddo i rywun sy'n siarad Cymraeg er mwyn delio â'r alwad.

## **9.2 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaeth Cymraeg y sefydliad drwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth (fel arolygon, siopwr dirgel ac ati)**

- 9.2.1 Mae Dim Smygu Cymru yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir mewn nifer o ffyrdd sy'n cynnwys adroddiadau perfformiad misol sy'n rhestru canlyniadau, a holiaduron boddhad cleientiaid. Gofynnir nifer o gwestiynau i gleientiaid sy'n ymwneud ag ansawdd y cymorth a gawsant a phan geir sylwadau negyddol bydd proses i fynd i'r afael â hyn. Yn y ganolfan alwadau, bydd goruchwyliwr ein canolfan ddwyieithog yn monitro ymatebion i alwadau drwy wrando ar alwadau Cymraeg a Saesneg a bydd yn cynnig adborth i'r rhai sy'n ymdrin â galwadau. Yn yr Arolwg Cleientiaid gofynnir y cwestiwn hwn: 'Oeddech chi'n gallu siarad Cymraeg os oeddech chi'n dymuno gwneud hynny?' Cofnodir adborth defnyddwyr y gwasanaeth yn yr Adroddiad Chwarterol Defnyddwyr Gwasanaethau ac yng Ngrŵp Rheoli Rhaglen Dim Smygu Cymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu hefyd â Phanel Dysgu trwy Brofiad Defnyddwyr Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.
- 9.2.2 Mae holiaduron profiad defnyddwyr gwasanaethau Bron Brawf Cymru, Rhaglen Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru, Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Sgrinio Cyn-Geni Cymru a Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru yn gofyn i bobl sy'n cael eu sgrinio: 'Oeddech chi'n gallu siarad Cymraeg os oeddech chi'n dymuno gwneud hynny?' Mae holiadur profiad defnyddwyr gwasanaethau Bron Brawf Cymru'n gofyn cwestiwn ychwanegol i bobl sy'n cael eu sgrinio: 'A wnaeth rhywun ofyn ichi a oeddech chi am siarad Cymraeg yn eich apwyntiad?' Bydd adborth defnyddwyr gwasanaethau'n cael ei gyflwyno i fwrdd y rhaglen sgrinio berthnasol ac yn adroddiad Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau'r isadran sgrinio. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu hefyd â Phanel Dysgu trwy Brofiad Defnyddwyr Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

## 10 Cwynion

### 10.1 Nifer y cwynion a gafwyd ynglŷn â gweithredu'r cynllun iaith Gymraeg

Cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 3 chwyn yn ystod 2017-18, un (33%) yn fwy na'r hyn a gafwyd yn 2016-17.

## 11 Ymchwiliad Statudol

**Diweddariad am roi argymhelliad parhaus ar waith yn sgil unrhyw ymchwiliad statudol gan y Comisiynydd o dan adran 19 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.**

- 11.1** Ym mis Medi 2015, cynhaliwyd ymchwiliad statudol i raglen Dim Smygu Cymru o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a hynny'n yn uniongyrchol yn sgil cwyn wrth Gomisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd' o hyn ymlaen) gan un o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd a wnelo'r gŵyn â honiad nad yw Dim Smygu Cymru'n darparu sesiynau rhoi'r gorau i smygu wyneb-yn-wyneb (grwpiau ac un-ac-un) yn Gymraeg yn ardal Cwm Taf, ac felly fod y rhaglen yn groes i Gynllun Iaith Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 11.2** Yn adroddiad ei hymchwiliad statudol, barn Comisiynydd y Gymraeg oedd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â rhoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith.
- 11.3** Ym mis Ionawr 2017 cymeradwyodd y Bwrdd gynllun gweithredu i weithredu argymhellion y Comisiynydd. Mae'r Bwrdd a Chomisiynydd y Gymraeg wedi derbyn adroddiadau cynnydd yn gyson ar weithrediad y cynllun gweithredu. Dangosir yr adroddiad diweddaraf yn y tabl a ganlyn:

	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Cynnydd</b>
1	Llunio Cynllun Sgiliau Iaith sy'n mynd i'r afael â materion recriwtio a hyfforddiant er mwyn hybu a gwella darpariaeth Cymraeg presennol y sefydliad.	31 Mawrth 2017	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	<p>Lluniwyd Cynllun Sgiliau Cymraeg erbyn 31 Mawrth 2017. Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynllun draft gan y Tîm Gweithredol, Grŵp y Gymraeg a'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol ac adolygwyd y draft gwreiddiol.</p> <p>Lansiwyd ymgynghoriad staff ar y Cynllun Sgiliau Cymraeg ar Fawrth y 1af. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 28 Mawrth 2018.</p>
2	Cyhoeddi Cynllun Sgiliau Iaith Gymraeg	31 Mai 2018	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	Adolygir y cynllun yng ngoleuni'r sylwadau a dderbynnir o ganlyniad i'r ymgynghoriad staff, a chyhoeddi Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym mis Chwefror 2018, a safonau 110 / 110A yn benodol mewn perthynas â datblygu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer 'Ymgynghoriadau Clinigol'. Yn ddibynnol ar natur a nifer y sylwadau a dderbynnir, caiff y Cynllun ei chymeradwyo erbyn 31 Mai 2018.
3	Pob cyfarwyddiaeth i gymhwyso'r Sgiliau Iaith Gymraeg i'w trefniadau cynllunio gweithlu a chyflwyno adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn rheolaidd.	O'r 31ain o Fai 2018	Pob Cyfarwyddwr	Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu gweithredu pan fydd camau 1 a 2 uchod wedi'u cyflawni. Ym mis Ebrill 2017 gofynnwyd i'r cyfarwyddiaethau fapio sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gweithgareddau

	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Cynnydd</b>
				cynllunio gweithlu. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Bydd cyhoeddi 'r Cynllun Sgiliau Cymraeg a safonau 110 / 110A arfaethedig mewn perthynas â datblygu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer 'Ymgynghoriadau Clinigol' yn cynorthwyo i bennu trefniadau ar gyfer y dyfodol.
4	Datblygu gweithdrefnau recriwtio sy'n sicrhau cyflawni trefniadau recriwtio yn unol â Pholisi Recriwtio Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Cynllun Iaith Gymraeg, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg arfaethedig, a Chyngor Recriwtio Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys datblygu gweithdrefn i asesu gofynion iaith Gymraeg swyddi newydd a gweigion Iechyd Cyhoeddus Cymru.	30 Mehffin 2018	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	<p>Mae'r Polisi Recriwtio yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a gwnaed adolygiadau i'r cynnwys o ran y Gymraeg.</p> <p>Mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Recriwtio a Dethol yn cynnwys rhai o'r gofynion am y Gymraeg, ond bydd angen adolygiadau pellach er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr</p> <p>Mae offeryn drafft i asesu gofynion iaith Gymraeg swyddi newydd a gweigion Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i baratoi. Ymatebodd ein Tîm Pobl i'r offeryn drafft ac fe'i hadolygwyd yng ngoleuni'r sylwadau. Bydd y Tîm Pobl yn treialu'r offeryn gyda detholiad o wasanaethau o fis</p>

	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Cynnydd</b>
				Mai 2018. Bydd y Swyddog Iaith yn cynnal sesiwn hyfforddiant gyda'r tîm ar 16 Ebrill 2018.
5	Pob cyfarwyddiaeth i lunio cynllun gweithredu terfynol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg drafft, a gwella argaeledd, mynediad ac ansawdd eu gwasanaethau Cymraeg.	30 Medi 2018	Pob Cyfarwyddwr	Yn ystod y misoedd nesaf datblygir fframwaith gweithredu, monitro a llywodraethu ar gyfer Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau.
6	Gweithredu elfennau perthnasol Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol: Mwy Na Geiriau.	Parhau	Pob Cyfarwyddwr	Fel uchod
7	Datblygu a gweithredu trefniadau monitro i sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg	30 Medi 2018	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	Fel uchod
8	Datblygu trefniadau llywodraethiant ar gyfer Safonau'r Gymraeg er mwyn rhoi sicrwydd i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd mewn perthynas â chydymffurfiaeth	30 Medi 2018	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	Fel uchod